# Case Study 1 – Hannah Clifford



Cofrestrodd Hannah Clifford ar gyfer y prosiect Meithrin Darparu Ffynnu, a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, ym Merthyr Tudful, a hynny i gael cymorth i wireddu ei breuddwyd o weithio ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Er bod Hannah yn mwynhau ei rôl ran-amser mewn lletygarwch, roedd ganddi gyfeiriad newydd i'w gyrfa mewn golwg, lle y byddai'n mynd ati i helpu'r gymuned, ac roedd am weithio i'r GIG.

Awgrymodd Meithrin Darparu Ffynnu y dylai Hannah wirfoddoli er mwyn datblygu ei sgiliau. Roedd y tîm Meithrin Darparu Ffynnu yn gallu gweithio gyda phartneriaid, gan gynnwys Cwm Taf Morgannwg, i sicrhau swydd iddi. Er gwaetha'r amserau heriol iawn a grëwyd gan bandemig COVID-19, mae Hannah wedi croesawu'r cyfle hwn, ac roedd yn rhagorol yn ei lleoliad. Mewn gwirionedd, roedd mor llwyddiannus yn ei gwaith gwirfoddol fel ei bod 'nawr wedi cael cynnig cyfle â thâl mewn rôl cynorthwyydd gofal iechyd.

Mae Hannah yn amlygu buddion niferus gwirfoddoli, sef nid yn unig helpu pobl agored i niwed yn y gymuned, ond cynyddu eich sgiliau i'ch galluogi i gyflawni eich breuddwydion o ran gyrfa.

Da iawn Hannah, mae'r tîm Meithrin Darparu Ffynnu yn dymuno pob llwyddiant i ti yn dy rôl newydd!